Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllluniau dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi paratoi'r cynlluniau dirprwyo hyn o dan adran 18 a pharagraff 32 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mabwysiadodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru eu priod gynlluniau ar 10 Mehefin 2021.

Archwilio Cymru yw hunaniaeth ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n ddau endid cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus Cymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi beth yw swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol a beth yw swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost gwybodaeth@archwilio.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


**Cynllun dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru**

Cyflwyniad 4

Swyddogaethau cyffredinol a neilltuedig y Bwrdd 4

Amodau'r ddirprwyaeth 5

Rhestr fanwl o ddirprwyaethau 6

- darparu staff ac adnoddau eraill 6
  - cyflogi staff 6
  - materion ariannol 8
  - sicrhau gwasanaethau 9
  - dal eiddo a rheoli llety 11
  - cynnal dogfennau a chadw cofnodion 11
- monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol 12
- cynghori'r Archwilydd Cyffredinol 12
- cynllunio corfforaethol, adrodd a rhwymedigaethau eraill 13
  - cynllun blynyddol 13
  - cyfrifon ac archwilio 13
  - adroddiadau 14
- gwaith cytundebau 14
- swyddogaethau eraill 15

**Cynllun dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Cyflwyniad 18

Swyddogaethau cyffredinol a neilltuedig yr Archwilydd Cyffredinol 19

Amodau'r ddirprwyaeth 21

Rhestr fanwl o ddirprwyaethau 22

- archwilio ac ati cyrff cyhoeddus 22
  - paru data 27
- rheoli Cronfa Gyfunol Cymru 28
- cyhoeddi cod ymarfer archwilio, arweiniad technegol ac ansawdd 28
- swyddogaethau ategol ac ati. 29
- swyddogaethau eraill 30
- Rôl Swyddog Cyfrifyddu 31

# Cynlluniau dirprwyo

## Cynllun dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru

### Cyflwyniad

1 Mae'r cynllun hwn yn nodi dirprwyaethau swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd). Ar gyfer cyd-destun, mae hefyd yn nodi swyddogaethau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer eu harfer gan y Bwrdd. I gael golwg gynhwysfawr ar ddirprwyaethau yn y sefydliad, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllun dirprwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2 Caiff y Bwrdd adolygu neu ddirymu ei gynllun dirprwyo yn unol â'i reolau gweithdrefnol (sydd wedi'u nodi yn ei gylch gwaith). Ar ben hynny, waeth beth yw darpariaethau'r cynllun dirprwyo hwn, caiff y Bwrdd ar unrhyw adeg arfer unrhyw un o'i swyddogaethau ei hun, naill ai ar ei liwt ei hun neu ar argymhelliad swyddog y dirprwyir y mater iddo.

3 Er gwaethaf unrhyw drefniadau dirprwyo, mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol am arfer ei swyddogaethau.

4 Ar wahân i swyddogaethau sydd wedi'u neilltuo drwy statud, gall swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt wedi cael eu dirprwyo na'u neilltuo o dan gynllun dirprwyaeth y Bwrdd gael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo swyddogaethau o'r fath ymhellach, yn unol â'r amodau cyffredinol a nodir ym mharagraff 9 isod.

5 Mae adrannau nesaf y ddogfen hon yn rhoi:

(a) crynodeb o swyddogaethau'r Bwrdd i roi cyd-destun i'r rhestr fanwl (mae hyn heb amharu ar gynnwys y rhestr);

(b) amodau dirprwyaeth sy'n berthnasol i'r cynllun hwn;

(c) rhestr fanwl o ddirprwyaethau.

### Swyddogaethau cyffredinol a neilltuedig y Bwrdd

6 Yn fras, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

a) monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;
b) rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol;[1]

[1] Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr ynghylch y modd y mae swyddogaethau'r swydd honno yn cael eu harfer, yn amodol ar fod â'r nod o gynnal y swyddogaethau hynny'n effeithlon ac yn gost-effeithiol, gan roi sylw i safonau ac egwyddorion darparwr arbenigol gwasanaethau cyfrifyddu ac archwilio, a gan ystyried cyngor gan y Bwrdd.

c) cyflogi staff a darparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

7 Ceir swyddogaethau penodol, a ragnodir gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 na ellir eu dirprwyo, er gwaethaf unrhyw gynllun:

(a) amcangyfrif incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol;
(b) paratoi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyda'r Archwilydd Cyffredinol;[2]
(c) gwneud rheolau at ddiben rheoleiddio gweithdrefn Swyddfa Archwilio Cymru;
(d) argymell i'r Senedd berson i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru;
(e) paratoi adroddiad neu adroddiad interim ar y cyd bob blwyddyn ariannol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
(f) dynodi, gyda chytundeb Senedd Cymru, person arall i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro.

8. Ceir swyddogaethau eraill nad ydynt wedi eu rhagnodi ond y mae'r Bwrdd wedi dewis eu neilltuo i'w hun ac sydd wedi'u nodi yn y rhestr fanwl.

## Amodau'r ddirprwyaeth

9 Mae'r dirprwyaethau a wnaed yn y cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

(a) rhaid arfer yr holl bwerau dirprwyedig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru;
(b) cyn arfer unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig, rhaid i'r person sy'n arfer y swyddogaeth ymgymryd ag ymgynghoriadau priodol, er enghraifft, gyda'r Pennaeth Cyllid mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau sylweddol o ran adnoddau;
(c) rhaid peidio ag arfer pwerau dirprwyedig mewn modd sy'n debygol o achosi pryder i'r cyhoedd;
(d) ac eithrio pan fo'r rhestr yn nodi na cheir dirprwyo swyddogaeth neu beidio â'i dirprwyo ymhellach, caniateir dirprwyo ymhellach ar yr amod bod dirprwyaeth o'r fath yn cael ei chofnodi'n ysgrifenedig.

10 Rhaid i'r rhai sy'n arfer dirprwyaethau roi sylw i rôl a chyfrifoldebau'r Tîm Arwain Gweithredol fel y'i disgrifir yn ei gylch gwaith. Bydd y person sy'n arfer y swyddogaeth ddirprwyedig yn pennu natur, cwmpas ac amseru unrhyw ymgysylltu â'r Tîm Arwain Gweithredol.

[2] Mae hon yn un o swyddogaethau'r Cadeirydd yn hytrach na'r Bwrdd. Yn yr un modd, mae’r swyddogaeth o benodi aelodau cyflogeion y Bwrdd yn un o swyddogaethau'r aelodau anweithredol ac ni ellir eu dirprwyo.

## Rhestr fanwl o ddirprwyaethau

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Darparu staff ac adnoddau eraill i'r Archwilydd Cyffredinol** | | |
| 1.1 | Cyflogi staff (Adran 21(2)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.1.1 | Pennu telerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol gan gynnwys:<br>(a) y strategaeth gyflogau<br>(b) newidiadau sylweddol i delerau ac amodau<br>(c) polisïau newydd neu ddadleuol, fel y'u diffinnir mewn canllawiau<br>(d) pob mater arall o delerau ac amodau cyflogaeth | (a) i (c) wedi'u neilltuo i'r Bwrdd<br>(d) wedi'u dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Yn ogystal â graddfeydd cyflog a'r strategaeth gyflogau, mae telerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol yn cyfeirio yn gyffredinol at y Llawlyfr Cyflogeion ac unrhyw bolisïau newydd neu ddadleuol. Gall y Pwyllgor Taliadau ac AD gynghori'r Bwrdd |
| 1.1.2 | Penderfynu ar strwythur cyffredinol y sefydliad gan gynnwys cyfansoddiad (o ran seddi a chyfrifoldebau) y Tîm Arwain Gweithredol | Wedi'i ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried cyngor y Bwrdd |
| 1.1.3 | Penderfynu ar strwythur y sefydliad islaw'r Tîm Arwain Gweithredol, gan gynnwys cyfansoddiad (o ran nifer y swyddi a chyfrifoldebau) | Wedi'i ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol a Chyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gweithredu ar y cyd (y Tîm Arwain Gweithredol) mewn perthynas â'r strwythur cyffredinol, ac ar wahân ar gyfer eu hunedau busnes perthnasol | Yn amodol ar ymgynghori yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol perthnasol, ac yn amodol ar y cynllun ariannol tymor canolig |
| 1.1.4 | Penodi a therfynu:<br>(a) Cyfarwyddwyr Gweithredol<br>(b) cyfarwyddwr(wyr) ymgysylltu a/neu arweinydd(arweinwyr) ymgysylltu ar gyfer Comisiwn y Senedd a Chronfa Gyfunol Cymru<br>(c) pob cyfarwyddwr arall | (a) Wedi eu neilltuo i'r Bwrdd<br>(b) Wedi eu neilltuo i'r Bwrdd<br>(c) Wedi eu dirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Taliadau ac AD<br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cyngor gan y Gwasanaethau Archwilio Cyfarwyddwr Gweithredol wrth benodi neu ddod â phenodiad cyfarwyddwyr archwilio i ben<br>Er mwyn sicrhau cydymffurfio â Safon Foesegol FRC, lle mae'r arweinydd ymgysylltu perthnasol yn pennu bod materion yn codi y gellid eu dehongli neu eu hystyried fel rhai sy'n arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | cymryd unrhyw ran bersonol o ran arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â staff sy'n archwilio  Comisiwn y Senedd neu Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r gwaith hwnnw |
| 1.1.5 | Asesiad perfformiad o:<br>(a) cyfarwyddwyr yn adrodd i'r Archwilydd Cyffredinol<br>(b) cyfarwyddwyr eraill | (a) Wedi'i ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr<br>(b) Wedi'i ddirprwyo i Wasanaethau Archwilio'r Cyfarwyddwyr Gweithredol | Mae trefniadau cydlofnodi yn berthnasol fel y nodir yn y polisi arfarnu.<br>Gyda'r eithriadau canlynol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymryd rhan wrth asesu'r holl gyfarwyddwyr, naill ai'n uniongyrchol neu fel swyddog cydlofnodi. Yr eithriadau yw cyfarwyddwyr sy'n ymwneud ag archwilio Comisiwn y Senedd a Chronfa Gyfunol Cymru, lle mae'r arweinwyr ymgysylltu perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi y gellid eu dehongli neu eu hystyried fel rhai sy'n arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol. Mewn achosion o'r fath, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd rhan mewn unrhyw asesiad ynglŷn â'r elfen honno o'u rôl. Caiff cyfarwyddwyr o'r fath eu heithrio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safon Foesegol |
| 1.1.6 | Penodi, asesu a therfynu cyflogeion eraill | Wedi ei ddirprwyo i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr, ac eithrio mewn perthynas â'r rhai sy'n archwilio  Comisiwn y Senedd neu Gronfa Gyfunol Cymru (ymdrinnir â therfynu aelodau o'r Bwrdd sy'n gyflogeion gan ddirprwyaeth 6.5) | Wedi ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol ac ymhellach yn unol â pholisïau AD<br>Er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r Safon Moesegol, lle y mae'r arweinydd ymgysylltu perthnasol yn pennu bod materion yn codi y gellid eu dehongli neu eu hystyried yn rhai a allai arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | Archwilydd Cyffredinol fel berson naturiol nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cymryd unrhyw ran bersonol o ran arfer y swyddogaethau hyn yng nghyswllt staff sy'n archwilio Comisiwn y Senedd neu Gronfa Gyfunol Cymru. |
| 1.1.7 | Cymeradwyo ceisiadau ar gyfer ymadael gwirfoddol:<br>(a) gan (i) cyfarwyddwyr neu (ii) unrhyw staff arall lle mae gwerth y taliad ymadael yn £95,000 neu'n uwch<br>(b) pob cais arall | (a) Wedi'i neilltuo i'r Bwrdd<br>(b) Wedi'i ddirprwyo i'r Tîm Arwain Gweithredol | (a) fel y cynghorir gan y Pwyllgor Taliadau ac AD<br>(b) fel y cynghorir gan y Tîm Cyfarwyddwyr |
| 1.1.8 | Pennu a monitro'r modd y cyflwynir y strategaeth Pobl a chynllun gweithlu strategol | Wedi'i neilltuo i'r Bwrdd | Gall y Bwrdd gael ei gynghori gan y Pwyllgor Taliadau ac AD sy'n cael ei gynghori gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.1.9 | Cymeradwyo newidiadau newydd, neu perthnasol i bolisïau AD presennol (ac eithrio'r rhai o dan ddirprwyaeth 1.1.1) | Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol | Dirprwyir paratoi'r polisïau hyn i'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan Bennaeth AD |
| 1.1.10 | Cymeradwyo newidiadau newydd, neu berthnasol i bolisïau sy'n bodoli eisoes, sy'n gysylltiedig â staff, gan gynnwys:<br>• y Cod Ymddygiad Staff<br>• y polisi chwythu'r chwiban mewnol<br>• y polisi anrhegion a lletygarwch | Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol | Dirprwyir paratoi'r polisïau hyn i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 1.2 | Materion ariannol | | |
| 1.2.1 | Paratoi a gosod gerbron yr amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyda'r Archwilydd Cyffredinol | Wedi ei neilltuo drwy statud i'r Bwrdd | Adran 20 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.2.2 | Cymeradwyo cynllun ariannol a gweithlu tymor canolig | Wedi'i neilltuo i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.2.3 | Gosod cyllidebau mewnol (gan gynnwys cyfrifoldebau cyllidebol dirprwyedig) o fewn yr amcangyfrif cymeradwy | Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol | Dirprwyaethau pellach i ddeiliaid cyllideb a phenaethiaid cyllideb yn unol â'r Llawlyfr Rheoli Ariannol a llythyrau dirprwyo |
| 1.2.4 | Cymeradwyo ymrwymiadau gwariant a monitro cyllidebau | (a) Wedi'i neilltuo i'r Bwrdd | |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | mewnol ar gyfer prosiectau a chontractau sydd â gwerth oes o:<br>(a) £250,000 neu fwy (ac eithrio'r gyflogres)<br>(b) rhwng £50,000 a £250,000<br>(c) hyd at £50,000<br>(ac eithrio colledion a thaliadau arbennig – gweler dirprwyaeth 1.2.5; hefyd yn eithrio gwaith cytundeb – gweler adran 5) | (b) Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol (fel Bwrdd Rhaglen Newid)<br>(c) Dirprwywyd i bennaeth y gyllideb ar gyfer y maes gwariant perthnasol | |
| 1.2.5 | Awdurdodi colledion a thaliadau arbennig:<br>(a) £15,000 a mwy<br>(b) llai na £15,000 | (a) Neilltuwyd i'r Bwrdd<br>(b) Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol | |
| 1.2.6 | Cymeradwyo cynllun ffioedd i'w gyflwyno i'r Senedd | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Adran 24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol |
| 1.2.7 | Cymeradwyo talu treuliau i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys fel Prif Weithredwr | Neilltuwyd i'r Cadeirydd | |
| 1.2.8 | Darparu yswiriant bywyd ychwanegol:<br>(a) newid i reolau unrhyw gynllun, gan gynnwys unrhyw benderfyniad i ganslo'r cynllun<br>(b) gweinyddu unrhyw gynllun yn barhaus | (a) Neilltuwyd i'r Bwrdd<br>(b) Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol | |
| 1.3 | Sicrhau gwasanaethau (Adran 21(2)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.3.1 | Paratoi a gosod polisïau a chanllawiau caffael | Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol | Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn dirprwyo'r gwaith o baratoi'r polisi a'r arweiniad i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes mewn cyswllt â'r Pennaeth Cyllid |
| 1.3.2 | Penderfynu ar wasanaethau penodol sydd eu hangen, gan gynnwys drafftio manyleb | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i benaethiaid cyllideb fel y nodir yn y Llawlyfr Rheoli Ariannol |
| 1.3.3 | Sicrhau darpariaeth gwasanaethau archwilio proffesiynol (h.y. | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | contractwyr) yn ôl y galw gan yr Archwilydd Cyffredinol | | i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Archwilio a fydd yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.3.4 | Sicrhau darparu cyfleusterau TG ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan y Pennaeth TGCh |
| 1.3.5 | Sicrhau darpariaeth offer swyddfa, dodrefn, deunydd ysgrifennu, trafnidiaeth a rheoli llety i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes |
| 1.3.6 | Sicrhau mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol a phroffesiynol arall i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 1.3.7 | Gwaith cyfathrebu o ran swyddogaethau'r Bwrdd | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Cyfathrebu a Newid sy'n cael ei gefnogi gan y Pennaeth Cyfathrebu |
| 1.3.8 | Sicrhau darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes<br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymryd cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 1.3.9 | Sicrhau cyflwyno'r rhaglen newid yn llwyddiannus | Dirprwywyd i'r Tîm Arwain Gweithredol (fel Bwrdd Rhaglen Newid) | |
| 1.4 | Dal eiddo a llety rheoli (Adran 21(2)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 1.4.1 | Cymeradwyo'r strategaeth ystadau | Neilltuwyd i’r Bwrdd | Bydd y Bwrdd yn cael eu cynghori gan y Tîm Arwain Gweithredol. Dirprwyir y gwaith o baratoi'r strategaeth i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gwasanaethau Busnes |
| 1.4.2 | Caffael, dal a gwaredu eiddo | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynghori'r Bwrdd fel Prif Weithredwr. Gwaith paratoi wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.5 | Cynnal dogfennau a chadw cofnodion (Adrannau 21(2)(d) a 21(2)(e) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) a thystiolaeth ddogfennol (Paragraff 36 o Atodlen 1 o Ddeddf 2013) | | |
| 1.5.1 | Cymeradwyo polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal dogfennau, cadw cofnodion a dal gwybodaeth mewn perthynas â'r holl swyddogaethau (gan gynnwys diogelwch gwybodaeth) | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol (fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth – SIRO) yn arwain y gwaith yn y maes hwn a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes (fel Swyddog Cofnodion Adrannol (DRO)), Pennaeth y Gyfraith a Moeseg a Phennaeth TGCh.<br>Mae Cyfarwyddwyr, Arweinwyr Ymgysylltu, a Phenaethiaid Gwasanaeth yn atebol i’r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer cydymffurfiaeth llywodraethu gwybodaeth o fewn eu meysydd cyfrifoldeb (fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth – IAOs).<br>O ran cadw cofnodion yn ymwneud â dal a defnyddio adnoddau, gweler |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | swyddogaethau y Swyddog Cyfrifyddu yn rhan 6 o gynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol. |
| 1.5.2 | Dal dogfennau a chadw cofnodion mewn perthynas â thrafodaethau'r Bwrdd ac arfer arall ei swyddogaethau (heb gynnwys cadw sêl a chofrestru seliau) | Dirprwywyd i Ysgrifennydd y Bwrdd | |
| 1.5.3 | Dal dogfennau a chadw cofnodion mewn perthynas ag arfer personol yr Archwilydd Cyffredinol o'i swyddogaethau | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo hyn ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol |
| 1.5.4 | Dal dogfennau a chadw cofnodion mewn perthynas ag arfer dirprwyedig swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol | Dirprwywyd *pari passu* gyda dirprwyaethau eraill o dan y cynllun hwn | |
| 1.5.5 | Ymdrin â cheisiadau gwybodaeth (e.e. o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth neu ddiogelu data) | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg<br>Nid yw'r ddirprwyaeth hon yn berthnasol o ran darparu barn yr Archwilydd Cyffredinol fel "Person Perthnasol" ar gyfer s36 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sydd wedi'i neilltuo'n statudol i'r Archwilydd Cyffredinol |
| 1.5.6 | Cadw Sêl Swyddfa Archwilio Cymru a Chofrestru Seliau | Pennaeth Y Gyfraith a Moeseg | |
| **2.** | **Monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol** | | |
| 2.1 | Monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Adran 17(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| 2.2 | Goruchwylio cyflawni rôl Swyddog Cyfrifyddu yr Archwilydd Cyffredinol | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| **3.** | **Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol** | | |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol am ei swyddogaethau yng nghwrs cyfarfodydd y Bwrdd ac yn gyffredinol | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Adran 17(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| **4.** | **Cynllunio corfforaethol, adrodd a rhwymedigaethau eraill** | | |
| 4.1 | Cynllun blynyddol (adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013) | | |
| 4.1.1 | Paratoi'r Cynllun Blynyddol ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol[3] | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Tîm Arwain Gweithredol.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid yn arwain y gwaith hwn gyda chefnogaeth y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 4.2 | Cyfrifon ac archwilio (darllenwch ar y cyd ag adran 6 o gynllun dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol sy'n cwmpasu ei swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu) | | |
| 4.2.1 | Cyflwyno'r cyfrifon i'r archwilydd allanol | Neilltuwyd drwy statud i'r Cadeirydd | Paragraff 35(1)(b) Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013 |
| 4.2.2 | Cymeradwyo cyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac argymell eu harwyddo gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 4.2.3 | Argymell archwilydd i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru i'r Senedd | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Paragraff 34(2) Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013<br>Cynghorir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg<br>Dirprwyir gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n ei dirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol.<br>Cefnogir y Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol gan y Pennaeth Gwasanaethau Busnes |

[3] h.y. dod â pharatoadau'r Cynllun Blynyddol i ben

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | Ni ddylid dirprwyo gwaith a darpariaeth cyngor i'r Bwrdd na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Pennaeth Cyllid |
| 4.2.4 | Cymeradwyo polisïau cyfrifo | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Penderfynu ar bolisïau cyfrifo a neilltuir i'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu<br>Bydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn cael eu cynghori gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 4.3 | Adroddiadau | | |
| 4.3.1 | Paratoi adroddiadau ar y cyd ar arfer y swyddogaethau gyda'r Archwilydd Cyffredinol[4] | Neilltuwyd drwy statud i'r Cadeirydd | Paragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013<br>Ni ellir dirprwyo'r swyddogaeth hon, ond gall y Cadeirydd ofyn i aelodau eraill y Bwrdd gyfrannu at y broses.<br>Cynghorir y Cadeirydd gan y Tîm Arwain Gweithredol.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Cyfathrebu a Newid yn arwain y gwaith hwn a gefnogir gan y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| **5.** | **Gwaith cytundeb** | | |
| 5.1 | Cynllunio gweithgarwch gwaith cytundeb yn gyffredinol, gan gynnwys penderfynu ar yr adnoddau sydd eu hangen | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Archwilio<br>(gweler hefyd Cynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â gwaith cytundeb) |
| 5.2 | Gwaith i sefydlu cytundebau ar gyfer darparu gwasanaethau gan Swyddfa Archwilio Cymru neu ei staff neu'r Archwilydd Cyffredinol | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Gwasanaethau Archwilio Cyfarwyddwr Gweithredol |

[4] h.y. gorffen paratoi adroddiadau ar arfer swyddogaethau

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 5.3 | Casglu cytundebau gyda chost oes o:<br>(a) lai na £100,000<br>(b) £100,000 neu fwy | (a) Dirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Archwilio<br>(b) Neilltuwyd i'r Bwrdd | Cynghorir y Bwrdd gan y Gwasanaethau Archwilio Cyfarwyddwr Gweithredol<br>Gall yr Archwilydd Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Archwilio lofnodi cytundebau yn unol â phenderfyniad y Bwrdd |
| 5.4 | Neilltuo staff i gytundebu gwaith sydd i'w ddarparu gan Swyddfa Archwilio Cymru | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Archwilio |
| **6.** | **Swyddogaethau eraill** | | |
| 6.1 | Penodi'r aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Yn dilyn cystadleuaeth agored ac ar gyngor gan y panel recriwtio, sydd fel arfer yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| 6.2 | Penodi Ysgrifennydd y Bwrdd | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr yn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd |
| 6.3 | Dynodi Swyddog Diogelu Data Swyddfa Archwilio Cymru | Neilltuwyd i'r Bwrdd | O dan Erthygl 37 o'r GDPR<br>(Bydd y Bwrdd fel arfer yn gwneud dynodiad ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol fel bod gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yr un person yn Swyddog Diogelu Data) |
| 6.4 | Swyddogaethau cyflogaeth eraill nad ydynt wedi'u pennu mewn mannau eraill yn y Cynllun hwn | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaethau hyn i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol a allai eu dirprwyo ymhellach yn unol â strwythur a pholisïau AD Swyddfa Archwilio Cymru |
| 6.5 | Penodi, pennu unrhyw delerau ac amodau ychwanegol a therfynu neu atal penodi aelodau gweithwyr y Bwrdd | Neilltuwyd drwy statud i'r aelodau anweithredol | Paragraffau 14 i 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013 |

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| | | | Penodi "aelod penodedig" ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol<br>Penodi "aelodau etholedig" yn unol â phleidlais gan staff Swyddfa Archwilio Cymru |
| 6.6 | Paratoi ar y cyd, adolygu a diwygio'n rheolaidd fel bo'n briodol y Cod ymarfer gan ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol[5] | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Paragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013<br>Dirprwyir gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 6.7 | Paratoi, amrywio neu ddirymu cynllun dirprwyaeth y Bwrdd | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Paragraff 32 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013<br>Dirprwyir gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr sy'n ei dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol<br>Cefnogir y Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol gan Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gorfod ymgynghori â Phennaeth y Gyfraith a Moeseg |
| 6.8 | Paratoi rheolau gweithdrefnol y Bwrdd (gan gynnwys ar gyfer rheoleiddio gweithdrefn y pwyllgorau) | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Paragraffau 27 i 30 o Atodlen 1 Deddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013<br>Dirprwyir gwaith i alluogi paratoi'r rheolau gweithdrefnol i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr sy'n ei ddirprwyo ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol a gefnogir gan Ysgrifennydd y Bwrdd |

[5] h.y. casglu paratoad y Cod Perthynas

| | Swyddogaeth | Dirprwyaeth/neilltuaeth | Nodiadau ac amodau |
|---|---|---|---|
| 6.9 | Dynodi person i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro | Neilltuwyd drwy statud i'r Bwrdd | Paragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio'r Cyhoedd (Cymru) 2013<br>Rhaid i'r dynodiad fod gyda chytundeb y Senedd (y pwyllgor cyfrifol)[6]<br>Dirprwyir gwaith i alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaeth hon i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol |
| 6.10 | Sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar y Bwrdd ac eithrio yn ôl deddfwriaeth treth neu gyflogaeth, e.e. llywodraethu gwybodaeth, deddfwriaeth cydraddoldeb a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae’r ddau yn ystyried barn y Tîm Arwain Gweithredol |
| 6.11 | Penodi cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau bwrdd | Neilltuwyd i'r Bwrdd | Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cefnogi'r Bwrdd yn y swyddogaeth hon |
| 6.12 | Gwaith i alluogi paratoi polisïau eraill y Bwrdd (megis y Cod Ymddygiad a'r polisi teithio a chynhaliaeth) | Dirprwywyd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr | Cefnogir yr Archwilydd Cyffredinol gan Ysgrifennydd y Bwrdd |

[6] Mae’r Senedd wedi dynodi'r Pwyllgor Cyllid fel y pwyllgor cyfrifol mewn perthynas â goruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynllun dirprwyo swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Cyflwyniad

1 Mae'r cynllun hwn yn nodi dirprwyaethau swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilydd Cyffredinol) ac fe'i gwneir o dan adran 18 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Dim ond yn unol â chynllun a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol y gellir dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

2 I roi cyd-destun, mae'r cynllun hefyd yn nodi swyddogaethau a neilltuir ar gyfer eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol yn bersonol. I gael golwg gynhwysfawr ar ddirprwyaethau yn y sefydliad, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â chynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd), yn enwedig gan fod y cynllun hwnnw yn darparu ar gyfer:

- dirprwyo rhai swyddogaethau’r Bwrdd i'r Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr y sefydliad; a
- swyddogaethau archwilio a chyfrifo sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Gall yr Archwilydd Cyffredinol adolygu neu ddirymu ei gynllun dirprwyo ar unrhyw adeg, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd. Ar ben hynny, waeth beth yw darpariaethau'r cynllun hwn, gall yr Archwilydd Cyffredinol ar unrhyw adeg arfer unrhyw un o'i swyddogaethau'n bersonol.

4 Er gwaethaf unrhyw drefniadau dirprwyo, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn parhau i fod yn bersonol gyfrifol am arfer ei swyddogaethau.

5 Mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon cyflawni swyddogaethau ei swydd neu na all eu cyflawni, caiff y Bwrdd, gyda chytundeb y Senedd, ddynodi person i arfer y swyddogaethau hynny dros dro yn unol â Rhan 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y cynllun hwn yn gymwys fel pe bai'r person dynodedig yn ei wneud a gall y person hwnnw ei ddiwygio neu ei ddirymu, yn amodol ar y gofyniad statudol ar gyfer ymgynghori â'r Bwrdd.

6 Mae adrannau nesaf y ddogfen hon yn darparu:

(a) crynodeb o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer y rhestr fanwl o ddirprwyaethau (a heb amharu ar gynnwys y rhestr);

(b) yr amodau sy'n berthnasol i'r cynllun hwn;

(c) crynodeb o'r swyddogaethau a neilltuir i'r Archwilydd Cyffredinol;

(d) rhestr fanwl o’r dirprwyaethau.

## Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol: dirprwyaethau a neilltuaethau cyffredinol

7 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldebau a swyddogaethau mewn perthynas â thair rôl:

a) ei rôl fel archwilydd, sy'n cynnwys—
   i. archwilio cyfrifon statudol;
   ii. archwiliadau a wneir trwy gytundeb;
   iii. archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian (i fod yn gryno, mae'r term "astudiaeth" yn y ddogfen hon yn cyfeirio at archwiliadau ac astudiaethau);
   iv. ardystio hawliadau grantiau a ffurflenni;
   v. asesiadau gwella, archwiliadau cynllunio gwelliannau ac arolygiadau arbennig a wneir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
   vi. paratoi cynllun dirprwyo ar gyfer arfer ei swyddogaethau;
   vii. paratoi cod ymarfer archwilio ar gyfer arfer ei swyddogaethau archwilio.

b) ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnwys—
   i. cadw cyfrifon a chofnodion priodol Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol;
   ii. paratoi datganiad o'r cyfrifon hynny;
   iii. cydymffurfio â chyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â chyfrifon a chyllid Swyddfa Archwilio Cymru a bennir o bryd i'w gilydd gan Senedd Cymru.

c) ei rôl fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw statud yn nodi swyddogaethau'r Prif Weithredwr yn benodol, ond mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni rôl y Prif Weithredwr. Ymdrinnir â'r rhain yng nghynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru.

8 Mae Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a ddarperir gan y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau ar gyfer dirprwyo ei swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu os na fydd ar gael dros dro. Mae'r ddirprwyaeth honno ar wahân i unrhyw ddynodiad dros dro gan y Swyddog Cyfrifyddu, ac nid yw'n amharu arni, drwy gytundeb Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyfrifol y Senedd o dan baragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013. [7]

[7] Mae'r trefniadau i'w gwneud gan yr Archwilydd Cyffredinol i gydymffurfio â'r Memorandwm ar gyfer ymdrin ag unrhyw achos arferol pan na fydd ar gael dros dro, er enghraifft oherwydd salwch neu wyliau blynyddol. Ni ellir gwneud trefniadau o dan baragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 ond os bydd swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dod yn wag, nad yw'r sawl sy'n gwneud y swydd ar y pryd yn fodlon cyflawni swyddogaethau'r swydd, neu os yw Swyddfa Archwilio Cymru a'r Senedd o'r farn bod y sawl sy'n gwneud y swydd ar y pryd naill ai'n methu â chyflawni swyddogaethau'r swydd neu o'r farn bod sail i'w tynnu oddi arno oherwydd camymddwyn.

9 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol[8], mae'n angenrheidiol i'r Archwilydd Cyffredinol beidio â chymryd unrhyw ran bersonol yn archwiliad, na rheoli archwiliad corff yr oedd wedi bod ag uwch swydd reoli ynddo lle mae'r arweinydd ymgysylltu perthnasol yn penderfynu bod materion yn codi y gellid eu dehongli neu eu hystyried yn rhai sy'n arwain at wrthdaro buddiannau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel person naturiol . Yn unol â hynny, mae Cynllun Dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried hyn mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd drwy ddirprwyo swyddogaethau o'r fath, pe bai'r amgylchiadau hynny'n codi, i'r Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwasanaethau Archwilio. Yn yr un modd, er mwyn osgoi canfyddiadau ynghylch gwrthdaro buddiannau, mae'r Cynllun yn gwneud trefniadau tebyg mewn perthynas â Chronfa Gyfunol Cymru (WCF).

10 Ac eithrio mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd a'r WCF, a heblaw mewn achosion pan na fydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, neilltuir y swyddogaethau canlynol i'w harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol:

a) pennu cyfarwyddwyr ymgysylltu;
b) awdurdodi cychwyn astudiaethau, arolygiadau arbennig ac ymarferion paru data;
c) penderfyniadau i osod adroddiadau a dogfennau Archwilydd Cyffredinol eraill gerbron y Senedd (mae hyn yn eithrio penderfyniadau ar amseriad gosod dogfennau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd i osod).

11 Yn yr un modd, ac eithrio mewn achos pan na fydd yr Archwilydd Cyffredinol ar gael dros dro, neilltuir y swyddogaethau canlynol hefyd ar gyfer eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol:

